



Cwblhau'r pro fforma Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i bob elusen yng Nghymru a Lloegr sydd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn ôl Deddf Elusennau 1993. Dylai hyd yr adroddiad a'r manylion ynddo gyfateb i faint a chymhlethdod yr elusen; yn achos yr elusennau lleiaf gall yr adroddiad fod yn syml iawn.

Wrth gwblhau'r pro fforma, os yw un neu ragor o'r blychau yn rhy fach i ddweud popeth y mae angen i chi ei ddweud neu yr hoffech ei ddweud, ychwanegwch dudalennau parhad os oes angen ond gwnewch yn siwr eich bod yn rhifo'r rhain ac yn rhoi pennawd priodol iddynt.

Sylwch pro fforma ar gyfer elusennau sydd wedi cofrestru yng Nghymru a Lloegr yw hwn. Yn achos elusennau sydd hefyd wedi cofrestru gyda Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban, dylech edrych i weld a oes rhaid i chi gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn bodloni gofynion y gyfraith elusennau yn yr Alban.

Pa elusennau all ddefnyddio'r pro fforma?

Mae pro fforma Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr y Comisiwn Elusennau wedi cael ei baratoi'n bennaf i gynorthwyo elusennau nad yw'n ofynnol iddynt gynnal archwiliad statudol i gyflwyno'r wybodaeth y mae ei hangen i fodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer adroddiadau o'r fath.

Ni ddylid defnyddio'r pro fforma heb ei addasu os yw'r elusen yn:

- elusen wedi'i hesgusodi;
- cwmni;
- cronfa adnau gyffredin, neu gronfa fuddsoddi gyffredin (heblaw cronfa cynllun cronni);
- elusen sydd wedi cofrestru yn yr Alban hefyd
- paratoi cyfrifon grwp; neu
- elusen y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddi gael archwiliad ariannol.

Elusennau wedi'u heithrio

Nid yw'n ofynnol i ymddiriedolwyr elusennau sydd wedi'u heithrio (hy, dan awdurdodaeth y Comisiwn Elusennau nid yw'n ofynnol iddynt gofrestru) baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr oni bai eu bod yn dewis cofrestru neu mae'r Comisiwn Elusennau yn gofyn iddynt yn benodol i baratoi adroddiad blynyddol. Beth bynnag, mae'n arfer da i elusennau o'r fath baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr, a gellir defnyddio'r pro fforma ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd uchod.

Elusennau wedi'u hesgusodi

Nid yw Deddf Elusennau 1993 yn rhoi unrhyw ofyniad cyfreithiol ar ymddiriedolwyr elusennau sydd wedi'u hesgusodi rhag cofrestru gyda ni i baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Gall fod trefn statudol arall ar gyfer elusennau o'r fath neu gall SORP mwy arbenigol fod yn gymwys iddynt. Nid yw'r pro fforma yn mynd i'r afael ag unrhyw ofynion neu argymhellion gwahanol a allai fod yn gymwys i elusennau wedi'u hesgusodi.

Cwmnïau elusennol

Mae'n ofynnol i gwmnïau elusennol yn ôl Deddf Elusennau 1993, i baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn ogystal â pharatoi adroddiad cyfarwyddwyr dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Gellir paratoi

un adroddiad yn cyfuno Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ac adroddiad y cyfarwyddwyr. Nid yw'r pro fforma hwn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ofynnol yn benodol gan Ddeddf Cwmnïau 2006. Bydd angen i elusennau sy'n gwmni addasu'r pro fforma er mwyn cynhyrchu adroddiad cyfunol sydd hefyd yn cydymffurfio â'r gyfraith cwmnïau.

Elusennau cronfa adnau gyffredin neu gronfa fuddsoddi gyffredin

Er bod cronfeydd buddsoddi cyffredin a chronfeydd adnau cyffredin yn elusennau cofrestredig, mae eu diben ac amcanion buddsoddi yn eu rhoi ar wahân. Mae'r fframwaith adrodd a weithredwyd gan y Rheoliadau a wnaed dan Ddeddf Elusennau 1993 yn darparu ar gyfer anghenion adrodd gwahanol gronfeydd buddsoddi o'r fath. Felly ni ddylai elusennau o'r fath ddefnyddio'r pro fforma hwn.

Elusennau y mae'n ofynnol iddynt yn ôl y gyfraith i gael archwiliad ariannol

Gall ymddiriedolwyr elusennau gydag incwm neu wariant sy'n fwy na throthwy archwiliad ariannol elusennau, neu sydd â gofyniad archwiliad ariannol dan drefn statudol arall, ganfod er bod y pro fforma yn darparu strwythur defnyddiol, y bydd angen iddynt roi mwy o wybodaeth na'r hyn a nodwyd yn y pro fforma.

Mae **archwiliad statudol** yn ofynnol dan Ddeddf Elusennau 1993 ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn diweddau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009 os yw naill ai incwm gros yr elusen dros £500,000 neu os yw incwm gros yn fwy na £250,000 ac mae gwerth agregedig ei hasedau dros £3.26m. Ar gyfer blynyddoedd ariannol yn diweddau cyn 1 Ebrill 2009, mae archwiliad statudol yn ofynnol os yw naill ai incwm gros yr elusen dros £500,000 neu os yw incwm gros yn fwy na £100,000 ac mae gwerth agregedig ei hasedau dros £2.8m. Rhagwelir y bydd pob un o'r trothwyon ariannol yn cael ei ailystyried fel rhan o ymrwymiad a wnaed i'r Senedd i gynnal adolygiad pum mlynedd o Ddeddf Elusennau 2006. Argymhellir bod elusennau'n cyfeirio at wefan y Comisiwn Elusennau i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i'r trothwyon yn y dyfodol a'u bod yn edrych ar wefan y Comisiwn Elusennau i gadarnhau'r trothwyon sy'n gymwys.

Felly dylai elusennau y mae'n ofynnol iddynt gynnal archwiliad statudol gyfeirio at argymhellion llawn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn SORP Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau: Datganiad o Arferion Cymeradwy 2005).

Tryloywder

Mae Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn ddogfen allweddol sy'n esbonio'r hyn y mae elusen yn ceisio ei wneud a sut y mae'n mynd ati i wneud hynny. Mae'n cynnig cyfle i ymddiriedolwyr elusen esbonio materion nad oes modd eu hesbonio'n llawn yn y cyfrifon yn unig ac mae'n ychwanegu at dryloywder a hygyrchedd y wybodaeth ariannol y mae'r cyfrifon yn eu darparu.

Cysondeb â'r fframwaith cyfreithiol ac arferion cymeradwy

Mae cynnwys y pro fforma yn cyfateb ag argymhellion Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau: Datganiad o Arferion Cymeradwy 2005 (SORP Elusennau) fel y bônt yn gymwys i elusennau llai.

Mae gofynion y SORP Elusennau mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn cyfateb â Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2005 (SI 629) (y Rheoliadau) fel y bônt yn gymwys i elusennau llai.

Mae'r SORP Elusennau yn cynnwys argymhellion ychwanegol sy'n gymwys i elusennau mwy o faint y mae elusennau llai, serch hynny, yn cael eu hannog i'w mabwysiadu yn wirfoddol. Yn yr un modd, mae Rheoliadau yn gofyn am wybodaeth ychwanegol gan elusennau mwy.

Mae'r pro fforma yn galluogi elusennau llai i fabwysiadu'r gofynion ychwanegol hyn, os dewisant. Tynnir sylw at ddatgeliadau ychwanegol o'r fath, sy'n hollol wirfoddol, yn y pro fforma.

Gwybodaeth bellach

Mae ein gwefan (www.charitycommission.gov.uk) yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol a darperir cyfeiriadau lle y bo'n berthnasol yn y nodiadau hyn.

Mae'r nodiadau hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae ei hangen i gwblhau'r pro fforma. Os yw unigolion sy'n cwblhau'r pro fforma yn dymuno darparu mwy o fanylion a chydymffurfio'n llawn â'r holl argymhellion arfer gorau dylent gyfeirio at baragraffu 41 i 59 SORP Elusennau sydd ar gael ar y Wefan.

Rydym yn cyhoeddi ar ein gwefan gopïau o'r adroddiadau blynyddol (a chyfrifon) elusennau gydag incwm o fwy na £25,000.

Adran	Sylwadau
Enw'r elusen	Ar gyfer elusennau cofrestredig mae'n golygu'r enw ar gofrestr y Comisiwn Elusennau. Dylai elusennau sydd heb gofrestru nodi'r enw ar eu dogfen lywodraethol.
Enwau eraill a ddefnyddir gan yr elusen	O bryd i'w gilydd gall elusennau ddefnyddio enw arall heblaw'r un sydd wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau neu sydd ar eu dogfen lywodraethol. Os yw enw arall yn cael ei ddefnyddio, dylid ei gynnwys yma.
Rhif elusen gofrestredig	Rhif yr elusen ar gofrestr y Comisiwn Elusennau. Dylid ei adael yn wag ar gyfer elusen sydd wedi'i heithrio.
Prif gyfeiriad	Pe byddai cynnwys cyfeiriad yr elusen yn rhoi unrhyw ymddiriedolwr elusen, uwch aelodau staff neu'r rhai sy'n penodi ymddiriedolwyr mewn perygl personol, cysylltwch â'r Comisiwn Elusennau, os ydych yn ffeilio eich adroddiad gyda ni, i geisio caniatâd i beidio â datgelu'r cyfeiriad yn yr adroddiad. Gall fod angen yr eithriad hwn ar gyfer elusennau fel llochesau menywod.
Ymddiriedolwyr	Mae dau wahanol fath o ymddiriedolwr dan y gyfraith elusennau. Rhoddir manylion am y rhai sy'n ymgymryd â'r rolau gwahanol hyn ar wahân yn yr adroddiad: - Mae ymddiriedolwyr elusen gan bob elusen sy'n gyfrifol am reolaeth gyffredinol yr elusen, gwneud penderfyniadau ynghylch beth sydd i'w wneud, sut y dylid codi arian a'i wario. Gall fod gwahanol enwau gan ymddiriedolwyr mewn dogfennau llywodraethol gan gynnwys ymddiriedolwyr, aelodau pwyllgor rheoli, aelodau bwrdd, llywodraethwyr ac ati. Weithiau, bydd corfforaeth gorfforedig gan elusen megis awdurdod lleol sy'n gweithredu fel ei hymddiriedolwr elusen (gweler isod). - Gall rhai elusennau gael 'ymddiriedolwyr' nad ydynt yn chwarae unrhyw ran yn rheolaeth yr elusen ond mae eiddo'r elusen wedi'i gofrestru yn eu henw. Gelwir ymddiriedolwyr o'r fath yn ymddiriedolwyr ar gyfer elusen ac maent yn cynnwys ymddiriedolwyr gwarchod ac enwebeion. Maen nhw'n lleihau'r angen i newid dogfennau perchnogaeth bob tro y mae'r ymddiriedolwyr elusen yn newid. Os yw'r elusen yn gorfforaeth gorfforedig (fel cwmni) ni fydd angen ymddiriedolwyr o'r fath yn gyffredinol oherwydd gellir breinio eiddo yn y gorfforaeth gorfforedig.
Enwau'r ymddiriedolwyr dyddiad elusen yn ystod	- Yn y tabl ymddiriedolwyr, dylech gynnwys enwau'r ymddiriedolwyr elusen sy'n rheoli'r elusen ar y elusen y mae'r adroddiad yn cael ei arwyddo ac unrhyw un a fu'n gweithredu fel ymddiriedolwr y cyfnod y cyfeiria'r adroddiad hwn ato, gan nodi'r dyddiadau y buont yn gweithredu. Hefyd gallwch ychwanegu manylion unrhyw swydd (ee, cadeirydd, trysorydd, ysgrifennydd ac ati) ar ôl yr enw. - Os yw ymddiriedolwr elusen yn cael ei benodi gan berson neu gorff dylech gynnwys enw'r person neu'r corff sy'n penodi (ee, yr ymddiriedolwyr eu hunain, aelodau'r elusen, yr ymsefydlwr neu'r sylfaenydd ac ati). - Mae'r ffurflen hon yn darparu ar gyfer rhestru 20 ymddiriedolwr rheoli. Yr uchafswm i'w ddatgelu yw 50 (defnyddiwch dudalen ar wahân os oes angen). Os oes mwy na 50 o ymddiriedolwyr, rhwch enwau 50 yn unig ond gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys enwau ymddiriedolwyr sy'n swyddogion (cadeirydd, ysgrifennydd, trysorydd ac ati). - Os yw'r ymddiriedolwr elusen yn gwmni neu'n gorfforaeth gorfforedig, rhestrwch enwau'r cyfarwyddwyr presennol neu unigolion eraill sy'n ei reoli. Pe byddai cynnwys enw arbennig yn rhoi unrhyw un o ymddiriedolwyr yr elusen mewn perygl personol, cysylltwch â'r Comisiwn Elusennau, os ydych yn ffeilio'r adroddiad gyda ni, i geisio caniatâd i beidio â datgelu'r enw(au) (nid yw'n gymwys i gyfarwyddwyr cwmni).
Enwau ymddiriedolwyr ar gyfer yr elusen (os oes)	Mae ymddiriedolwyr ar gyfer yr elusen yn dal y teitl i eiddo'r elusen (gweler uchod). Dylech gynnwys enwau unrhyw ymddiriedolwyr o'r fath ar y dyddiad yr arwyddwyd yr adroddiad hwn neu'r rhai a fu'n gweithredu yn ystod blwyddyn yr adroddiad.
Enwau a chyfeiriadau ymgynghorwyr (dewisol)	Gall ymddiriedolwyr elusen ddewis nodi yma enwau a chyfeiriadau unrhyw ymgynghorwyr a ddefnyddir yn rheolaidd, er enghraifft archwiliwr annibynnol, archwiliwr ariannol, cyfrifydd, pensaer, cyfreithiwr, syrfêwr, ymgynghorwyr buddsoddi a bancwyr.

Adran	Sylwadau
Enw'r prif weithredwr neu enwau uwch aelodau staff eraill	Gall ymddiriedolwyr elusen ddewis nodi yma enw'r prif weithredwr neu os oes nifer o uwch aelodau staff sy'n gyfrifol am reoli'r elusen, eu henwau nhw.
Math o ddogfen lywodraethol	Nodwch y math o ddogfen lywodraethol sydd gan yr elusen ac os oes modd nodwch ei dyddiad a dyddiad unrhyw newidiadau. Fel arfer bydd y ddogfen lywodraethol ar ffurf cyfansoddiad neu weithred ymddiriedolaeth, er gallai fod yn ewyllys, yn Siarter Frenhinol, yn Gynllun y Comisiwn Elusennau neu'n femorandwm ac erthyglau cymdeithasu (cwmni). Mae cofrestr y Comisiwn Elusennau (ar ein gwefan) yn dangos y math o ddogfen lywodraethol ar gyfer pob elusen gofrestredig.
Beth yw cyfansoddiad yr elusen	Dyma'r ffurf gyfreithiol a fabwysiadwyd gan yr elusen. Gall fod yn ymddiriedolaeth, yn gymdeithas, yn gwmni cyfyngedig ac ati.
Dulliau dewis ymddiriedolwyr elusen	Defnyddir yr adran hon i esbonio'n fyr sut y dewisir ymddiriedolwyr elusen. Er enghraifft, gall corff arall benodi ymddiriedolwyr, gallant gael eu hethol o'r aelodaeth, gallant gael eu penodi gan yr ymddiriedolwyr elusen ac ati.
Gwybodaeth llywodraethu ychwanegol (dewisol)	Gall ymddiriedolwyr elusen ddewis darparu yn yr adran hon wybodaeth bellach am drefniadau llywodraethu, strwythur a phatrwm yr elusen. Mae'r pro ffoma yn darparu penawdau ar gyfer y wybodaeth ychwanegol y gellir ei darparu yn yr adran hon.
Crynodeb o amcanion yr elusen a nodwyd yn e dogfen lywodraethol	Yn yr adran hon dylech gynnwys crynodeb o amcanion cyfreithiol yr elusen. Gall ymddiriedolwyr elusennau cofrestredig weld crynodeb o'u hamcanion cofrestredig ar gofrestr y Comisiwn Elusennau ar ein gwefan. Yn ogystal, gall ymddiriedolwyr elusen ddewis cynnwys manylion am nodau ac amcanion yr elusen a bennwyd am y flwyddyn a'r strategaeth a fabwysiadir i'w cyflawni. Gall gynnwys esbonio'r newidiadau neu'r gwahaniaeth y mae'r elusen yn ceisio ei wneud trwy ei gweithgareddau.
Crynodeb o'r prif weithgareddau a wnaed er budd cyhoeddus mewn perthynas â'r amcanion	Dyma ran bwysig o'r adroddiad blynyddol ac yn yr adran hon dylid cynnwys crynodeb byr o brif weithgareddau'r elusen a wnaed er budd cyhoeddus, gan esbonio sut y mae'r rhain yn hyrwyddo ei hamcanion elusennol. Er enghraifft, gallech esbonio'r prif raglenni, prosiectau a gweithgareddau eraill y mae'r elusen yn ymwneud â nhw. Dylai'r crynodeb fod yn ddigonol i roi dealltwriaeth resymol i'r darllenwydd o'r math o waith a wnaed er budd cyhoeddus. Er enghraifft, o dan y pennawd, 'Rhedeg canolfan gymunedol', disgrifiwch y prif weithgareddau yn y ganolfan a'r grwpiau sy'n defnyddio'r ganolfan neu o dan y pennawd, 'Rhoi cymorth am ddim i fuddiolwyr', dilynwch hyn gyda disgrifiad byr o'r prif feysydd cyngor a roddwyd a natur y buddiolwyr a gafodd eu helpu. Mae adran 4(6) o Ddeddf Elusennau 2006 a Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn gofyn i ymddiriedolwyr elusen ystyried y canllawiau ar fudd cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau wrth ymarfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y byddai'r canllawiau yn berthnasol iddynt, a gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw yn yr adroddiad blynyddol. Os yw'r ymddiriedolwyr wedi darllen y canllawiau, argymhellwn eu bod yn dweud sut mae'r canllawiau wedi cael eu hystyried wrth ymgymryd â gwaith yr elusen, er enghraifft, wrth gynllunio'r gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried y canllawiau yn eu cyfarfodydd ymddiriedolwyr. Os nad yw pob un o'r ymddiriedolwyr wedi darllen y canllawiau dylid gwneud datganiad sy'n datgelu'r ffaith honno ac argymhellwn fod yr ymddiriedolwyr yn cynghori ar y camau y maent yn eu cymryd i gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol.
Materion ychwanegol ar weithgareddau	Efallai yr hoffai ymddiriedolwyr elusen ddarparu mwy o wybodaeth am eu gweithgareddau gan gynnwys unrhyw bolisiau ar roi grantiau neu fuddsoddiadau sy'n gysylltiedig â rhaglen neu am y cyfraniad y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud.
Crynodeb o brif gyraeddiadau'r elusen yn ystod y flwyddyn	Yn yr adran hon dylech gynnwys crynodeb byr o brif gyraeddiadau'r elusen am y flwyddyn a ddeilliodd o'r gweithgareddau elusennol a wnaed er budd cyhoeddus.. Gall fod yn naratif byr yn disgrifio canlyniadau gwaith yr elusen neu fanylion am yr hyn a gyflawnwyd, er enghraifft, 'wedi rhedeg 150 o sesiynau grŵp chwarae dan oruchwyliaeth i blant 2 i 4 oed yn para 3 awr ac wedi cyrraedd 89 o blant a 60 o deuluoedd.' Gall ymddiriedolwyr elusen ddewis darparu mwy o wybodaeth fanwl yn yr adran hon am eu prif gyraeddiadau. Gall gwybodaeth o'r fath gynnwys: - Gwybodaeth ansoddol a meintiol sy'n helpu esbonio perfformiad. - Cymharu perfformiad yn erbyn yr amcanion a osodwyd ar gyfer: - Gweithgareddau elusennol. - Codi arian. - Buddsoddiadau. - Sylwadau ar unrhyw ffactorau o fewn a'r tu allan i reolaeth yr elusen sy'n berthnasol i gyflawni ei hamcanion. - Manylion am unrhyw gynlluniau i'r dyfodol ac unrhyw faterion eraill y cred yr ymddiriedolwyr y dylid eu dwyn at sylw'r darllenwydd.

Adran	Sylwadau
Polisi cronfeydd wrth gefn	Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymddiriedolwyr elusen ddatgelu eu polisi cronfeydd wrth gefn neu ddatgelu'r ffaith nad oes polisi cronfeydd wrth gefn ganddynt. Os oes polisi cronfeydd wrth gefn gan yr ymddiriedolwyr dylid cynnwys esboniad o bolisi cronfeydd wrth gefn yr elusen yn yr adran hon. Yn arbennig dylech esbonio: • yr hyn y mae'r ymddiriedolwyr elusen wedi penderfynu sy'n lefel briodol o gronfeydd wrth gefn; • faint sydd gan yr elusen mewn cronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn; a • pham y mae angen i'r ymddiriedolwyr dal cronfeydd wrth gefn. Er enghraifft, gall gynnwys bodloni amrywiadau mewn derbyniadau a thaliadau, ateb anghenion penodol yn y dyfodol, neu neilltuo arian i dalu am ddigwyddiadau neu sefyllfaoedd a all godi (trefniadau wrth gefn a risgiau). Os yw'r elusen wedi dynodi cronfeydd perthnasol i'w defnyddio yn y dyfodol fel rhan o gronfeydd wrth gefn, mae angen esbonio diben y dynodiad hwn. Hefyd gall fod o gymorth i esbonio pryd y bydd y symiau a ddynodwyd yn cael eu gwario. Hefyd, os yw'r elusen yn dal gwaddol treuliadwy neu fuddsoddiad sy'n gysylltiedig â rhaglen, gall ymddiriedolwyr elusen ddewis esbonio sut mae cronfeydd o'r fath neu symiau yn effeithio ar eu polisi cronfeydd wrth gefn. Mae polisïau cronfeydd wrth gefn, yn ogystal â bod yn bwysig i gynllunio ariannol yr elusen ei hun, hefyd yn helpu esbonio i ddarllenwyr cyfrifon elusennau y rhesymau pam mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu dal. Fel rheol gall y datganiad hwn fod yn eithaf byr i elusennau llai. Fe gewch wybodaeth bellach yn ein cyhoeddiad <i>Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau</i> (CC19).
Manylion unrhyw gronfeydd mewn diffyg	Mae angen cwblhau'r adran hon dim ond os yw'r elusen yn paratoi cyfrifon ar sail croniadau ac mae ganddi gronfeydd unigol sydd mewn diffyg sylweddol. Os yw unrhyw gronfeydd mewn diffyg rhaid esbonio pam mae hyn wedi digwydd a'r hyn a gaiff ei wneud i unioni'r sefyllfa.
Manylion adolygiad ariannol pellach	Gall ymddiriedolwyr elusen ddewis ehangu eu hadolygiad ariannol i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am eu prif ffynonellau cyllid a sut y maent yn cynnal amcanion allweddol. Yn yr un modd, os yw buddsoddiadau perthnasol yn cael eu dal gallant ddewis esbonio eu polisïau buddsoddi. Gall gwybodaeth ychwanegol o'r fath gynorthwyo darllenwyr i ddeall y cyfrifon a'r polisïau ariannol a fabwysiadwyd yn well. Gall gwybodaeth o'r fath fod yn ddefnyddiol i brif gyfranwyr neu gyllidwyr a'u helpu i ddeall y cyswllt rhwng cyllid a ddarparwyd ac amcanion allweddol yr elusen.
Gwybodaeth arall	Gellir defnyddio'r adran hon ar gyfer unrhyw fanylion eraill y gall yr ymddiriedolwyr elusen ddewis eu cynnwys yn eu hadroddiad. Gall y wybodaeth hon gynnwys, er enghraifft, manylion am nodau ac amcanion allweddol a bennwyd ar gyfer gweithgareddau arfaethedig ac yn y dyfodol. Os yw'r elusen, neu ei hymddiriedolwyr, yn gweithredu fel ymddiriedolwyr gwarchod dylent ddarparu gwybodaeth yma ynghylch: • yr asedau a ddelir yn y rhinwedd hon; • enwau ac amcanion yr elusen (neu elusennau) y mae'r asedau yn cael eu dal ar eu cyfer a sut mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynnwys o fewn amcanion yr elusen; • manylion y trefniadau ar gyfer diogelu a gwahanu asedau o'r fath o asedau'r elusen ei hun.
Llofnodion	Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r adroddiad hwn gael ei gymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr ac ar ôl ei gymeradwyo, ei arwyddo a'i ddyddio i ddangos ei fod wedi cael ei gymeradwyo. Mae o leiaf un llofnod ymddiriedolwr yn ofynnol ond mae'n arfer da i gael llofnod dau ymddiriedolwr. Dylai'r elusen gadw copi wedi'i lofnodi o'r adroddiad. Os yw copi o'r adroddiad yn cael ei ffeilio gyda'r Comisiwn Elusennau nid oes rhaid i'r copi hwnnw gael ei lofnodi â llaw gan yr ymddiriedolwyr.